

## Adroddiad Blynyddol Fforwm Derbyn 2013 - 2014

**Awdurdod Derbyn: Wreccsam**

Ysgrifennydd y Fforwm: Mrs Bev Griffith    Manylion cyswllt: [Bev.Griffith@wrexham.gov.uk](mailto:Bev.Griffith@wrexham.gov.uk)    Ffôn: 01978 295426

Cyfeiriad:    Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc, 3ydd Llawr Sgwâr Lambpit, LL11 1AR

### Aelodaeth a phresenoldeb y Fforwm

Enw	Swydd	Amser gwasanaethu fel Aelod Fforwm *	Aelodaeth yn ôl categori (gweler y tabl isod)
1.    Mrs Maria Rimmer	Cadeirydd/Pennaeth, Ysgolion Uwchradd Anglicanaidd a Chatholig	3 Blynedd Cymerodd drosodd fel Cadeirydd ym mis Ebrill 2014	CR
2.    Mr Brendan MacDonald	Is-gadeirydd/Pennaeth, Ysgolion Cynradd Adran Iau	3 Blynedd Cymerodd drosodd fel Is-gadeirydd ym mis Ebrill 2014	IG/Y
3.    Mr John Davies	All Wreccsam / Pennaeth Dysgu Gydol Oes	5 Mlynedd	ALI, ALI/AAA, ALI/LAC
4.    Mr Dafydd Ifans	ALI Wreccsam / Pennaeth Trawsnewid Addysg a	5 Mlynedd	ALI, ALI/AAA, ALI/LAC

		Chynllunio Gweithlu		
5.	Mr Nick Williams	ALI Wrecsam / Pennaeth Effeithiolrwydd a Chynhwysiant Addysg	6 Mlynedd	ALI, ALI/AAA, ALI/LAC
6.	Mrs Sally Richard-Simpson	ALI Wrecsam / Swyddog Clwstr Cynhwysiant	Blwyddyn	ALI, ALI/AAA, ALI/LAC
7.	Mrs Ann Jones	Rheolwr Derbyn	10 Mlynedd	ALI, ALI/AAA, ALI/LAC
8.	Ms Paula Parry	Rheolwr Mynediad a Lleoedd Ysgol	Gorffennaf 2014	ALI, ALI/AAA, ALI/LAC
9.	Y Cyngorydd Michael Williams	Aelod Arweiniol Gwasanaethau Plant ac Addysg	2 Flynedd	A/LI
10.	Mrs Rita Price	Comisiynydd Esgobaethol ar gyfer Ysgolion Catholig	9 Mlynedd	CR
11.	Mrs Rosalind Williams	Swyddog Ysgolion Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru	6 Mlynedd	CEEC
12.	Mr Simon Ellis	Pennaeth, Ysgolion Sefydledig	3 Blynedd	Y/F
13.	Mrs Nicola Booth	Pennaeth, Ysgol a Gynorthwyr y Santes Fair, Rhiwabon	4 Mlynedd	I/GY
14.	Mr Carwyn Davies	Pennaeth, Ysgolion Cyfrwng Cymraeg	Ebrill 2014	I/GY

15.	Ms Sarah Hurst	Pennaeth, Ysgolion Cynradd i Fabanod	8 Mlynedd	I/GY
16.	Mr John Hughes	Ysgolion Cynradd	2 flynedd a hanner	I/GY
17.	Mrs Maxine Pittaway	Pennaeth, Ysgolion Arbennig	5 Mlynedd	ALI, ALI/AAA, ALI/LAC
18.	Ms Kelly Senior	Gorllewin Caer ac Awdurdod Lleol Caer	Tachwedd 2014	ALI, ALI/AAA, ALI/LAC
19.	Mrs Helen Evans	ALI Sir Ddinbych	Blwyddyn	ALI, ALI/AAA, ALI/LAC
20.	Mrs Gill Yates/Mrs Christine Roberts	ALI Sir y Fflint	9 Mlynedd	ALI, ALI/AAA, ALI/LAC
21.	Mrs Carol Sneddon	ALI Swydd Amwythig	3 Blynedd	ALI, ALI/AAA, ALI/LAC
22.	Mrs Alison Fisher	Rhiant Lywodraethwr Cynradd	2 Flynedd	RhL
23.	Mr David Edwards	Rhiant Lywodraethwr Uwchradd	Tachwedd 2014	RhL

**\*Os ydynt wedi gwasanaethu am fwy na 4 blynedd, dylid cynnwys dyddiad y'u hail-etholwyd hefyd.**

<b>Acronymau ar gyfer Aelodau Craidd</b>		
<b>Aelodau a Enwebwyd gan</b>	<b>Aelodau Craidd</b>	<b>Acronym</b>
ALI - unrhyw aelod neu swyddog o'r awdurdod	1 i 5	<b>ALI, ALI/AAA, ALI/LAC</b>
Cynrychiolwyr Esgobaethol Yr Eglwys yng Nghymru	1 i 3	<b>CEEC</b>
Cynrychiolwyr Esgobaethol Catholig Rufeinig	1 i 3	<b>CR</b>
Ysgolion – a reolir yn gymunedol a gwirfoddol	1 to 3	<b>Y/CG</b>
Ysgolion – sefydledig	1 i 3	<b>Y/S</b>

Ysgolion – a gynorthwyr yn wirfoddol	1 i 3	<b>Y/G</b>
Cynrychiolwyr rhiant lywodraethwr	1 i 3	<b>RhL</b>
Cynrychiolwyr o'r gymuned leol	Hyd at 3	<b>A/LI</b>

## Dyddiadau cyfarfodydd a phresenoldeb

	Dyddiad	Nifer yr Aelodau Fforwm yn bresennol - yn ôl categori
Cyfarfod cyntaf	<b>13 Ionawr 2014</b> (yn disodli cyfarfod 11 Rhagfyr, 2013 gan iddo gael ei ganslo oherwydd tywydd gwael)	12
Ail gyfarfod	<b>7 Ebrill 2014</b>	15
Trydydd cyfarfod	<b>13 Tachwedd 2014</b>	I'w gadarnhau

Cadarnhewch a yw awdurdodau derbyn yn ardal y fforwm wedi cwblhau'r ymgynghoriad a phenderfynu ar broses drefniadau derbyn o fewn yr amserlen sy'n ofynnol gan Reoliadau Addysg (Penderfynu ar Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2006 [gan gynnwys ymgynghori ar y trefniadau erbyn 1 Mawrth yn y flwyddyn benderfynu a phenderfynu ar y trefniadau terfynol erbyn 15 Ebrill y flwyddyn honno].

Os bydd unrhyw awdurdod derbyn na fydd wedi bodloni'r amserlenni, rhowch fanylion yma.

Faint o ddogfennau ymgynghori ydych chi wedi eu gweld gan awdurdodau derbyn (heb gynnwys awdurdodau lleol eraill)?

Cyflwynodd pob ysgol a gynorthwyir / ysgol sefydledig eu polisïau derbyn i'r Awdurdod Lleol mewn pryd i'w cynnwys yng Nghlanllaw Rhieni i Wasanaethau Addysg yn Wrecsam 2015/2016.

**Pa drefniadau derbyn sydd wedi'u rhoi ar waith i wasanaethu buddiannau plant diamddiffyn?  
A ydynt wedi bod yn llwyddiannus?  
Pa drefniadau eraill ydych chi wedi eu nodi i gefnogi'r plant hyn?**

Er mwyn sicrhau ein bod yn diwallu anghenion plant diamddiffyn yn y broses dderbyn, mae nifer o swyddogion allweddol yn cydweithio'n agos gyda staff yr Adran Dderbyn. Lle mae gan ddisgyblion Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), bydd Swyddogion AAA perthnasol yn gweithio gyda Derbyniadau i roi gwybod iddynt am leoliadau tebygol a allai fod yn wahanol i'w hysgol prif ffrwd leol. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer y disgyblion hynny sy'n debygol o fynychu ysgol arbennig neu ddarpariaeth ag adnoddau o fewn ysgol brif ffrwd.

Diwallir anghenion Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG), neu'n arfer derbyn gofal, gyda chefnogaeth gan y Cydlynnydd Addysg PDG sy'n cysylltu â'r Tîm Derbyn ac yn sicrhau y caiff eu statws PDG ei adlewyrchu yn y broses dderbyn lle maent yn cael y flaenoriaeth uchaf yn y meini prawf gordanysgrifio. Cefnogir disgyblion sydd â Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY) gan y Gwasanaeth SIY a rhan o gylch gwaith y gwasanaeth yw sicrhau mynediad esmwyth i'r ysgol ar gyfer disgyblion SIY, gan wneud yn siŵr bod y teulu a'r ysgol yn gwbl barod i'w derbyn. Yn ogystal, bydd staff o'r Gwasanaeth Cefnogi Ymddygiad ac Addysg Teithwyr yn cefnogi disgyblion pan eu bod yn cael eu derbyn neu'n trosglwyddo rhwng ysgolion. Bydd y Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Addysg hefyd yn gweithio gyda'r tîm derbyn i sicrhau y cynorthwyr disgyblion diamddiffyn (a'u teuluoedd) drwy'r broses dderbyn.

Lle gofynnir am drosglwyddiadau "cymhleth" (sy'n cynnwys disgyblion gyda nifer o waharddiadau neu ar fin cael eu gwahardd), mabwysiadir y Protocol Trosglwyddo Cymhleth, lle mae uwch swyddogion yr ALI yn ystyried rhinweddau /anawsterau posibl trosglwyddiad o'r fath. Mewn achosion o'r fath, rydym fel arfer yn argymhell cynnwys y gwasanaethau cefnogi (e.e. presenoldeb mewn cyfarfod derbyn). Mae hyn yn cael ei adolygu a bydd yn cael sylw yn ystod 2014/2015. Trosglwyddiadau cymhleth i gael eu disodli gan Protocol Trosglwyddo Disgyblion a Reolir.

**Pa mor dda y mae'r gweithdrefnau derbyn y cytunwyd arnynt yn ystod y flwyddyn wedi gweithio?  
Faint o blant sydd wedi cael eu derbyn i bob ysgol o dan y gweithdrefnau?  
Ydych chi wedi nodi cynnydd yn y niferoedd ar gyfer derbyniadau yn ystod y flwyddyn, ac os felly pa gamau a nodwyd i fynd i'r afael â'r mater hwn?**

Mae Wrecsam wedi cytuno ar weithdrefn ar gyfer newid ysgol yng nghanol cyfnod, a'r ALI yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer pob cais o'r fath yn y Sir. Mae'r broses hon yn parhau i gael ei hadolygu. Mae'r broses yn galluogi'r Tîm Derbyn i sicrhau fod y gronfa ddata ddisgyblion ganolog yn gyfredol ac yn eu cynorthwyo i ganfod plant 'diamddiffyn' yn fuan. Yn ogystal, cytunwyd ar ganllawiau ar gyfer ymdrin â cheisiadau trosglwyddo mwy cymhleth ac anodd, yn enwedig ym mlynnyddoedd 10/11 gan yr ystyrir y blynyddoedd hyn i fod yn gwrs 2 flynedd; gallai ceisiadau i drosglwyddo i ysgolion eraill yn Wrecsam, ar ôl Blwyddyn 9, gael effaith negyddol ar gynnydd academaidd disgyblion ac felly nid yw'r ALI yn ystyried eu bod yn briodol.

Mae gwybodaeth ar gael i rieni drwy brosbectws cyfansawdd yr ALI. Mae trosglwyddiadau syml yn amodol ar gyfnod cyflawni o 15 diwrnod ysgol, er y gall trosglwyddiadau lle mae problemau arwyddocaol fel anawsterau ymddygiad gymryd mwy o amser. Mae meddalwedd 'In Year' CAPITA A&T yn cael ei ddefnyddio rwan i gofnodi trosglwyddiadau yng nghanol cyfnodau.

Gweler y daenlen isod sy'n amlinellu trosglwyddiadau yng nghanol cyfnodau ar gyfer blwyddyn academaidd 2013/2014.



**Pa faterion mynediad allweddol sydd wedi'u nodi ar gyfer yr ardal?  
Beth ydyn nhw, a sut y mae'r fforwm yn mynd i'r afael â nhw?**

Cydnabuwyd gordanysgrifio mewn nifer o ysgolion cynradd, adolygwyd y niferoedd a dderbyniwyd a'u cynyddu lle bod y cyfleusterau'n caniatáu. Mae'r ALI wedi'i gyfyngu gan argaeledd cyllid i gynyddu maint yr ysgolion mewn ardaloedd lle mae'r galw'n uchel; bydd y sefyllfa'n parhau i gael ei monitro.

Bu nifer fach o achosion lle mae penaethiaid ysgolion cynradd wedi derbyn disgyblion heb ddilyn y broses a gytunwyd arni yng nghanol cyfnodau. Yn ogystal, mae rhai swyddogion derbyn ysgolion uwchradd wedi gwneud sylwadau amhriodol i rieni'r disgyblion ynghylch eu derbyn i'w hysgol yn lle eu cyfeirio at Dîm Derbyn yr ALI. Mae'r broses o drosglwyddo yng nghanol cyfnod yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd a bydd ysgolion yn cael eu diweddarau pan fyddwn yn cytuno ar ganlyniad yr adolygiad.

Mae'r Fforwm yn cydnabod bod anghysondeb yn y ffordd y mae'r ALI yn ariannu cefnogaeth ar gyfer apelïadau i ysgolion a gynorthwyr yn Wrecsam, mae'r arian hwn bellach ar gael hefyd i'r ysgol sylfaen.

Agorodd yr ysgol cyfrwng Cymraeg newydd, Ysgol Bro Alun, ym mis Medi 2013 gyda derbyniadau i'r dosbarthiadau Meithrin a Derbyn. Ni ellid mynd i'r afael yn llawn â chynlluniau i leihau'r nifer a dderbynnir i Ysgol Plas Coch i 30 a chael gwared ar y gofod ychwanegol oherwydd y nifer uchel o geisiadau am addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. Gostyngwyd y nifer a dderbyniwyd felly i 40 ar gyfer rownd dderbyniadau 2013/2014 a bydd yn cael ei adolygu ar gyfer 2014/2015.

Bydd y wybodaeth a gyhoeddir ar-lein ynghylch ysgolion a gynorthwyr yn cael ei adolygu. Mae angen mynediad ar ysgolion i weld ceisiadau ar-lein am nad ydynt yn gweld ffurflenni papur a ddychwelwyd yn flaenorol yn uniongyrchol i'r ysgol gan rieni mwyach – Gobeithio cyflwyno PRIME ym mis Medi 2014.



**Derbyniadau Ysgolion ac Apeliadau - Gweler y dogfennau amgaaedig**

Enw'r Ysgol	Nifer a dderbyniwyd	Nifer y ceisiadau	Nifer y ceisiadau llwyddiannus	Nifer yr apeliadau	Nifer yr apeliadau llwyddiannus	Nifer yr apeliadau ar ôl 30 diwrnod	Nifer dewisiadau cyntaf, ail neu drydydd rhieni a fodlonwyd
<b>Cyfanswm</b>							